



CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl gydweithiwr,

11/07/2022

Diolch yn fawr i chi i gyd am eich gwaith caled a'ch ymrwymiad parhaus wrth i ni brofi galw mawr parhaus am ein gwasanaethau, ochr yn ochr â gofynion ychwanegol cynnydd yn nhrosglwyddiad cymunedol COVID-19, a'r canlyniadau o safbwynt nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ac absenoldeb salwch ymhlith aelodau o'r tîm.

O ganlyniad, gofynnaf i'r cyhoedd fod yn amyneddgar, byddwch yn garedig wrth y tîm a helpwch ni i'ch helpu chi lle y gallwch. Os nad oes angen i chi ymweld â'r Uned Achosion Brys gallwch gael cyngor a gofal iechyd gan fferyllfa gymunedol ar gyfer y rhan fwyaf o fân afiechydon ac mae gan wiriwr symptomau ar-lein [GIG Cymru](#) gyfoeth o gyngor ar gyfer llawer o gyflyrau.

Gan ein bod yn barod i brofi cyfnod o dywydd poeth, byddwn hefyd yn gofyn i chi ofalu amdanoch chi'ch hun ac eraill, yn enwedig babanod a phlant ifanc, y rhai sy'n agored i niwed a'r henoed, a dilyn cyngor iechyd gan gynnwys gwisgo amddiffyniad rhag yr haul, yfed digon o hylifau, osgoi golau haul uniongyrchol rhwng 11am a 3pm a gwisgo dillad llac.

Yr wythnos diwethaf, croesawodd y Bwrdd Iechyd y Gweinidog Amddiffyn, Pobl a Chyn-filwyr Leo Docherty AS a Chomisiynydd Cyn-filwyr Cymru, James Phillips i Ysbyty Deintyddol y Brifysgol. Mae'r boblogaeth cyn-filwyr yng Nghymru yn un fawr sydd ag anghenion amrywiol sy'n rhychwantu

iechyd corfforol a meddyliol. Mae rhai yn cael eu trin gan Rwydwaith Trawma Cyn-filwyr Cymru a sefydlwyd yn 2019 yma ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gan dîm o gydweithwyr gan gynnwys clinigwyr milwrol rheolaidd. Mae'n sicrhau bod y cyn-filwyr sydd wedi'u hanafu'n fwyaf difrifol sy'n byw yng Nghymru yn cael mynediad teg at ofal arbenigol priodol ar gyfer eu hanafiadau. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd yn gartref i Gyn-filwyr GIG Cymru sy'n trin ac yn cefnogi cyn-filwyr ag anghenion iechyd meddwl.

Roedd yn ddiddorol dysgu mwy am y gwasanaeth a thrafod ffyrdd y gallwn godi ymwybyddiaeth o gyn-filwyr ar draws y sefydliad, hwyluso cydweithio â'n partneriaid a chynnig mwy i gefnogi anghenion cyn-filwyr i wella eu profiadau a'u lles cyffredinol. Mewn partneriaeth â'r elusen annibynnol, [Defence Medical Welfare Service](#), rydym ar hyn o bryd yn recriwtio ar gyfer Cyfamod y Lluedd Arfog ac Arweinydd Cydweithredol Gofal Iechyd Cyn-filwyr i weithio yn y lleoliad gofal iechyd i ddarparu gwasanaeth lles meddygol ymatebol o'r radd flaenaf i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n gyn-filwyr a'u teuluoedd. Mae'r rhain yn rolau pwysig sy'n cefnogi'r cydweithio agos rhwng y Bwrdd Iechyd, llywodraeth leol a'r trydydd sector a'r sector preifat i ddiwallu anghenion iechyd a gofal iechyd meddwl cyn-filwyr.

Diolch i Ed Chapman a'r tîm Peirianeg Glinigol a'm croesawodd yn gynnes i'w hadran yr wythnos diwethaf lle y deuthum i ddeall mwy

am y gwaith arloesol sy'n cael ei wneud. Mae'r tîm Peirianeg Glinigol yn cynnal cyfanswm o tua 50,000 o eitemau o offer meddygol, sy'n anhygoel, ac maent yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu cymorth cylch bywyd i'r Bwrdd Iechyd bob dydd, drwy gydol y flwyddyn. Diolch i'r rhai y cyfarfûm â hwy ar y diwrnod am roi o'u hamser i ddweud mwy wrthyf am eu rôl a'u gwaith, gan gynnwys Ian Davies, Ryan Thomas, Mike Bray, Neil Parry, Simon Butler, David Griffiths, John Maisey, Rhydian Ball, Andy Campbell, Anna Necrews a Saul Harris. Dyma dîm gwych, sy'n gwneud gwaith arbennig, a gwnaeth pawb argraff fawr arnaf, diolch Ed am gymryd yr amser i'm dangos o gwmpas ac am y cyfle i gwrdd â'ch tîm rhagorol.

Yn dilyn proses ddethol drylwyr a chystadleuol, rwyf wrth fy modd yn croesawu Jason Roberts i'w rôl newydd fel Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio. O ystyried ei brofiad, ei angerdd, ei sgiliau arwain a'r

parch mawr sydd iddo o fewn y gymuned nyrsio, bydd Jason yn aelod hynod werthfawr o'n tîm Gweithredol ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gydag ef. Rwy'n gwybod y bydd Jason yn dod â llawer iawn o egni a gweledigaeth i'r rôl ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein cleifion yn cael profiad cadarnhaol o dderbyn gofal. Darllenwch fwy am ei benodiad isod.

Dymunaf wythnos hapus ac iach i chi. Gofalwch am eich hunain a'ch gilydd wrth wynebu galwadau'r wythnos i ddod.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi penodi Jason Roberts i swydd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio

Llongyfarchiadau i Jason Roberts sy'n ymgymryd â'r swydd yn dilyn cyfnod diweddar

fel Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio Dros Dro ac fel Dirprwy Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio blaenorol ers 2018.



Mae gan Jason dros 30 mlynedd o brofiad nyrsio ers cofrestru fel nyrs oedolion ym 1993. Mae Jason wedi gweithio mewn nifer o Fyrddau Iechyd, lle atgyfnerthodd ei yrfa glinigol mewn Meddygaeth Damweiniau ac Achosion Brys, cyn bod yn gyfrifol am nifer o uwch swyddi nyrsio ar draws ystod amrywiol o arbenigeddau a chyn ymuno â BIP Caerdydd a'r Fro yn 2016 fel Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer y Bwrdd Clinigol Meddygaeth.

Mae gan Jason enw da am arweinyddiaeth dosturiol o ansawdd uchel ac mae'n dod ag ehangder a dyfnder o brofiad arwain amlbroffesiynol clinigol a nyrsio gydag ef mewn rolau amrywiol ar draws y GIG yn Ne Cymru. Mae'n ymrwymedig i sicrhau bod cleifion yn cael profiad cadarnhaol a chanlyniadau gwych ac mae'n chwarae rhan allweddol mewn nifer o ddarnau o waith cenedlaethol sy'n ysgogi gwelliant mewn safonau gofal.

Dywedodd Jason: "Rwyf wrth fy modd fy mod yn ymgymryd â'r swydd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a'r cyfle anhygoel hwn i weithio gyda chydweithwyr i arwain gweithlu nyrsio gwych. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i ddatblygu ein timau nyrsio a'n prosesau ansawdd a diogelwch fel y gallwn sicrhau ein bod yn darparu profiad rhagorol i gleifion. Mae wedi bod yn ychydig o flynyddoedd heriol ac rwy'n falch o fod yn gweithio gyda chydweithwyr ymroddedig ac ymrwymedig i lunio ein blaenoriaethau a'n hadnoddau nyrsio."

CRI yn cynnal Ymweliad Brenhinol

Ddydd Mawrth 5 Gorffennaf, gwnaeth Camilla, Ei Huchelder Brenhinol Duges Cernyw, ymweld â RISE Caerdydd yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Mae Cyngor Caerdydd wedi buddsoddi mewn pwynt mynediad sengl i wasanaethau cymorth, mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r gwasanaeth wedi'i gydleoli ochr yn ochr â Chanolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) ranbarthol y Bwrdd Iechyd.

Gwnaeth Ei Huchelder Brenhinol gyfarfod â staff a defnyddwyr gwasanaethau - gan gynnwys cynrychiolwyr o Cymorth i Fenywod, Bawso a Llamau - yn ogystal â Charles 'Jan' Janczewski, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Diolch i bawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth mor hynod werthfawr.



Diweddariad ar Feddygfa Pentyrch

Hoffai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddiolch i Eluned Morgan, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ei hystyriaeth ofalus o ran y pryderon a godwyd ynghylch lleoliad gwasanaethau meddygon teulu i drigolion Pentyrch a'r ardaloedd cyfagos. Bydd y penderfyniad a wnaed gan y Gweinidog yn caniatáu inni ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer

darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i drigolion yr ardal hon.

Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau o safon sy'n diwallu anghenion y boblogaeth leol a byddwn yn ystyried yr argymhellion a wnaed i wella gwasanaethau i'r gymuned leol.

Rydym yn gwerthfawrogi mewnbyn y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) ac yn cydnabod bod craffu a her yn chwarae rhan hanfodol yn natblygiad parhaus gwasanaethau, ac mae eu rôl yn allweddol i'n helpu i ddarparu'r gwasanaethau iechyd gorau posibl o fewn cymunedau.

Er ein bod yn deall y gall newid fod yn gythryblus ac y bydd safbwyntiau cymysg gan y boblogaeth cleifion ynghylch y safle newydd arfaethedig, credwn mai dyma'r canlyniad gorau i'r gymuned ac i ymarferwyr meddygol Pentyrch a'r ardaloedd cyfagos.

Rydym yn edrych ymlaen at ddarparu'r cyfleusterau newydd hyn a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r CIC ynghylch y ddarpariaeth cludiant. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned leol am y cynlluniau a'r cynnydd mewn perthynas â'r cyfleusterau newydd.

Sgrinio Canser y Coluddyn - Deallusrwydd Artiffisial

Gyda chefnogaeth y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a chanolfan Ymchwil Canser Cymru, ac wedi'i chynnal gan Brifysgol Caerdydd, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn arwain astudiaeth ymchwil glinigol nodedig. Mae ymchwil Dyfodol Deallusrwydd Artiffisial Endosgopi Amser Real (FORE AI) yn cael ei gynnal yn yr Uned

Endosgopi yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau, dan arweiniad yr Athro Sunil Dolwani, a'i nod yw dangos manteision defnyddio deallusrwydd artifisial mewn sgriniadau cancer y coluddyn colonosgopi.

Mae colonosgopi yn gyfrwng pwysig ar gyfer adnabod a thynnu polypau cyn-ganseraidd a chanseraidd, ond mae ei effeithiolrwydd a'i ansawdd yn dibynnu'n fawr ar sicrhau bod polypau'n cael eu gweld yn ystod archwiliadau, ac na chânt eu methu.

Gyda hyn mewn golwg, mae'r astudiaeth ymchwil glinigol yn edrych ar ddefnyddio systemau canfod a diagnosis â chymorth cyfrifiadur i weithredu fel ail bâr o lygaid yn ystod llawdriniaeth ac mae'n defnyddio deallusrwydd artifisial i nodi'r polypau mewn delweddau. Os bydd yn llwyddiannus, nod yr ymchwil hwn yw gwella canlyniadau cleifion trwy wella cyfraddau canfod, cynnig profiad gwell i gleifion trwy ddarparu diagnosis ar unwaith a chynyddu effeithlonrwydd gweithredol o fewn unedau drwy ddulliau nodi patholeg cywir ar adeg y driniaeth.

Ymunwch â ni ar gyfer ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 19 Gorffennaf

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol rhithwir ddydd Mawrth 19 Gorffennaf a byddem yn croesawu presenoldeb gan y rhai yn ein cymunedau a'n partneriaid allweddol. Byddwch yn clywed gan aelodau bwrdd a thîm gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a fydd yn rhannu adolygiad o'r flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys ein hymateb parhaus i'r pandemig COVID-19 a sut rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd wrth barhau i esblygu ac arloesi i ddiwallu anghenion ein poblogaeth gynyddol.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw trwy Microsoft Teams i'ch galluogi i weld a chlywed ein cyflwyniadau. Dilynwch y ddolen [hon](#) i ymuno â ni ar y diwrnod.

Os hoffech gyflwyno cwestiwn i'w ateb yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, anfonwch e-bost at Nathan.Saunders2@wales.nhs.uk erbyn 14 Gorffennaf.

Y babi cyntaf wedi'i eni yng Nghymru gan ddefnyddio technoleg nwy ac aer newydd sy'n ystyriol o'r hinsawdd

Am y tro cyntaf yng Nghymru, rhoddodd Anne-Marie Leaman enedigaeth i Hudson yn ddiweddar gan ddefnyddio technoleg nwy ac aer newydd sy'n ystyriol o'r hinsawdd. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro yn ymrwymedig i ymgorffori cynaliadwydd mewn systemau gofal iechyd, ac mae defnyddio'r dechnoleg werdd newydd yn garreg filltir arwyddocaol wrth leihau allyriadau ocsid nitrus.

Defnyddir ocsid nitrus yn gyffredin mewn gofal iechyd ar gyfer anaestheteg ond er ei fod yn rhan hanfodol o ddarparu gofal iechyd, fe'i hystyrir yn nwy tŷ gwydr niweidiol. Mae astudiaethau'n dangos bod gan ocsid nitrus fwy na 265 gwaith y potensial cynhesu bydeang na charbon deuocsid (CO₂).

Mae Entonox, a elwir yn gyffredin yn nwy ac aer, yn gyfuniad o ocsid nitrus ac ocsigen. Yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, mae'r defnydd o Entonox yn cyfateb i allyrru 4495 tunnell o CO₂ y flwyddyn, yr un peth â gyrru 930 gwaith o amgylch y byd mewn car petrol. Mae Unedau Lleihau Carbon Entonox sydd wedi'u datblygu yn Sweden yn gallu casglu ocsid nitrus sy'n cael ei anadlu allan a'i 'gracio' yn nitrogen ac ocsigen sy'n cael eu hystyried yn ddiniwed.

Mae BIP Caerdydd a'r Fro wedi gweithio'n agos gyda chleifion a staff ar weithredu'r Unedau Lleihau Carbon Entonox. Mae cleifion a staff wedi dangos brwdfrydedd ac ymrwymiad mawr tuag at leihau effeithiau amgylcheddol a chroesawu dulliau gofal newydd.

Mae prosiect Entonox yn rhan o weithgarwch ehangach i leihau'r defnydd o ocsid nitrus ar draws safleoedd Byrddau Iechyd.

Ar hyn o bryd mae pedwar maniffold ocsid nitrus ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd, sef y dull storio nodweddiadol. Mae canfyddiadau gan dîm prosiect amlddisgyblaethol BIP Caerdydd a'r Fro wedi nodi y gall gwastraff o'r math hwn o system fod yn uchel oherwydd gollyngiadau a cholli nwy o'r cyflenwad. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi treialu silindrau ocsid nitrus cludadwy yn Ysbyty Plant Cymru fel rhan o gynllun peilot unigol sydd wedi cynyddu effeithlonrwydd yn sylweddol, o 2.5% i 74%.

Yn dilyn y peilot llwyddiannus, gwnaeth y tîm gyflwyno'r astudiaeth beilot ar draws y sefydliad drwy'r Academi Lledaeniad a Graddfa gyda'r uchelgais i rannu mewnwelediadau ac annog newid ledled Cymru. Hyd yma, mae safle Ysbyty Athrofaol Llandochoau'r Bwrdd Iechyd wedi datgomisiynu ei faniffold ocsid nitrus yn llawn ac mae cynlluniau ar y gweill i ddatgomisiynu'r prif faniffold yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Dangosodd yr Adroddiad Healthcare Without Harm fod 5.6% o allyriadau yn y DU yn dod o leoliadau gofal iechyd ac mae cynllun Datgarboneiddio GIG Cymru yn rhoi sylw i leihau nwyon anesthetig. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhagweld arbedion o 1.15 miliwn litr o ocsid nitrus neu 679 tunnell o CO₂e bob blwyddyn a fydd yn chwarae rhan enfawr mewn gwneud gofal iechyd yn fwy cynaliadwy yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg a thu hwnt.

Dywedodd Charlotte Oliver, Anesthetidd Ymgynghorol ac un o Arweinwyr Clinigol y prosiect ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: "Rwy'n falch iawn o'r gwaith caled y mae'r tîm wedi'i wneud er mwyn i ni gyrraedd y man hwn, gan herio normau gofal sydd wedi bodoli ers degawdau a chaniatáu i ni gryfhau ein hymrwymiad i leihau ein heffaith amgylcheddol. Rydym yn cydnabod bod gennym lawer i'w wneud eto yn ein rhaglen Lluio ein Gofal Iechyd Cynaliadwy i'r Dyfodol ond rydym wrth ein bodd gyda'r cynnydd yr ydym yn ei wneud a'r brwdfrydedd i addasu gan ein cydweithwyr a'n cleifion."



Mae'r llun yn dangos Anne-Marie Leaman a'i babi Hudson Feneck

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn mynychu digwyddiadau lleol

Mynychodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro Ffair Iechyd Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Trefnir y digwyddiad hwn gan Race Equalities First a rhoddodd gyfle i ni gwrdd a sgwrsio â phobl o gymunedau amrywiol ar ein stondin. Yn ogystal â chwrdd â phobl o

bob rhan o'r rhanbarth, daeth y Prif Weinidog Mark Drakeford, Diverse Cymru, Age Cymru a'r Gymdeithas Alzheimer i drafod ein gwaith. Roedd y stondin hon yn canolbwyntio ar ddementia ac fe'i cefnogwyd gan y Tîm Dysgu a Datblygu Dementia. [Cliciwch yma i gael gwybod am yr hyfforddiant y maent yn ei gynnig i staff ar hyn o bryd.](#)

Bu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn gweithio gydag Age Cymru i gynnal gweithdy i wrando ar farn gofalwyr di-dâl am ein Siarter Drafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl. Nod y Siarter hon yw helpu pobl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg i ddeall p'un a ydyn nhw, neu rywun y maent yn ei adnabod, yn ofalwr di-dâl. Mae hefyd yn cynnwys cyfres o ymrwymadau gan Gynghorau lleol a'r Bwrdd Iechyd sydd am sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod a'u cefnogi. Byddwn yn sicrhau bod y Siarter derfynol yn adlewyrchu'r adborth a gawsom. Os oes gennych chi, neu unrhyw un yr ydych yn ei adnabod, ddiddordeb yn y gwaith hwn ac yr hoffech ddweud eich dweud, cliciwch yma i gael gwybod sut. Mae'r arolwg ar agor tan ddiwedd mis Gorffennaf.



Rachel Lloyd-Davies yn Arwr Iechyd ar gyfer mis Gorffennaf

Mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn falch o gyhoeddi bod Rachel Lloyd-Davies, Dirprwy Reolwr Ward yn y Ganolfan Adsefydlu ar ôl Strôc (SRC), wedi'i choronï'n Arwr Iechyd ar gyfer mis Gorffennaf. Mae Rachel yn Ddirprwy Reolwr Ward yn y Ganolfan Adsefydlu ar ôl Strôc yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau ac mae'n cael ei pharchu gan gydweithwyr am ei chefnogaeth, ei hanogaeth a'i chryfder cyson tuag at staff, ymwelwyr a chleifion.

Yn ôl cydweithwyr hynod gefnogol Rachel, "Hyd yn oed gyda phrinder staff a salwch, mae Rachel wedi sicrhau bod anghenion a dymuniadau'r cleifion, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd anodd, wedi cael eu diwallu uwchlaw popeth arall. Mae hi'n gofalu am ei staff, yn dysgu ac yn addysgu lle bynnag y bo modd, ond byth mewn modd nawddoglyd." Darllenwch ragor [yma](#).



Llongyfarchiadau i enillwyr Loteri'r Staff

EICH ENILLWYR LOTERI STAFF £1,000 MIS MEHEFIN YW; | Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro Llongyfarchiadau i enillwyr Loteri Staff mis Mehefin;

- Iona Buchanan, Gofal Critigol Pediatrig, Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru
- Megumi Baba, Gofal Lliniarol Pediatrig, Cymunedol
- Donna Spillane, Pryderon, YAC
- Paul Price, Hafan y Coed, YALL

Mae Andrea Drury yn codi arian ar gyfer Cardioleg er cof am Toby Carrington

Mae Andrea Drury wedi bod yn codi arian ar gyfer Cronfa Gardioleg Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, yr holl ffordd o Sydney, Awstralia! Mae'r holl arian a godwyd er cof am Mr Toby Carrington, a fu farw'r llynedd.

Ddydd Gwener 3 Mehefin, trefnodd Andrea ddigwyddiad Parti Hwyl Ffitrwydd Dŵr, gan logi pwll lleol ar gyfer y digwyddiad â thocyn gyda cherddoriaeth a hyfforddwyr gwych, a chyda 'sizzle selsig' (selsig mewn bara neu frechdan selsig, bwyd barbeciw poblogaidd o Awstralia) yn cael ei gynnig i bawb ar ddiwedd y parti. Roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol, a chodwyd swm anhygoel o \$3,600!

Bu Andrea yn byw yng Nghymru am 4 blynedd ac roedd yn agos at Mr Carrington a'i wraig, ac roedd am roi rhywbeth yn ôl er cof am ei ffrind.

Lansio Horatio's Garden

Bu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ynghyd â'i elusen swyddogol, Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, yn dathlu agoriad Horatio's Garden yng Nghanolfan Adsefydlu Arbenigol yr Asgwrn Cefn a Niwroadsefydlu yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau ddydd Sadwrn 2 Gorffennaf.

I gefnogi creu'r ardd, yn hael iawn, fe ddarparodd BIP Caerdydd a'r Fro y tir a chyfrannodd Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn sylweddol at ddatblygu'r safle a'i gynnal a'i gadw. [Darllenwch ragor yma.](#)

